

Adroddiad Arolygu o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Practis Deintyddol Morgan Street,
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf
Morgannwg

Dyddiad yr arolygiad: 29 Tachwedd 2023

Dyddiad cyhoeddi: 29 Chwefror 2024



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copiâu o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#)c neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	8
	• Ansawdd Profiad y Claf	8
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	12
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	17
4.	Y camau nesaf	20
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	21
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	22
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	23

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Morgan Street, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg ar 29 Tachwedd 2023.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un Arolygydd Gofal Iechyd AGIC ac Adolygydd Cymheiriaid Deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o 32 o holiaduron. Gwnaethom hefyd siarad â'r staff a oedd yn gweithio yn y gwasanaeth yn ystod ein harolygiad. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#).

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod y cleifion yn cael eu trin ag urddas a pharch drwy gydol eu taith fel claf. Gwelsom fod digon o wybodaeth ar gael i'r cleifion o gwmpas y practis a bod apwyntiadau yn cael eu rheoli'n effeithiol. Dywedwyd wrthym fod adnoddau cyfieithu ar-lein wedi bod yn ddefnyddiol yn ddiweddar wrth drin ffoaduriaid o Wcráin, a gwnaethom nodi dull dim goddefgarwch mewn perthynas â bwlio, aflonyddu a gwahaniaethu.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn cael eu trin ag urddas a pharch
- Cymorth i ddiwallu anghenion pobl nad Saesneg yw eu mamiaith.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom bractis diogel a oedd mewn cyflwr da ac a oedd yn darparu gofal effeithiol i'w gleifion. Gwelsom fod polisiâu ac asesiadau risg cynhwysfawr ar waith er mwyn helpu i reoli iechyd a diogelwch yn effeithiol. Fodd bynnag, gwelsom fod angen gwneud rhai gwelliannau i'r trefniadau ar gyfer storio gwastraff clinigol. Roedd cofnodion clinigol yn cael eu cadw i safon briodol, ond gwelsom fod angen gwneud rhai gwelliannau wrth olrhain atgyfeiriadau. Roedd y cyfarpar clinigol yn hylan ac mewn cyflwr da, ac roedd y staff a oedd yn ei ddefnyddio wedi cael hyfforddiant addas.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff gwastraff clinigol ei storio'n briodol
- Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff atgyfeiriadau cleifion eu holrhain mewn modd amserol.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd yr holl gyfarpar mewn cyflwr da, gan gynnwys yr eitemau o gyfarpar i'w defnyddio mewn argyfwng
- Roedd y prosesau dihalogi yn foddhaol
- Y trefniadau ar gyfer rheoli triniaethau radiograffig.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod trefniadau arwain cefnogol ar waith er mwyn helpu i sicrhau bod y practis yn rhedeg yn effeithiol. Gwelsom staff cyfeillgar a gwybodus a chofnodion da o gyfarfodydd staff. Gwnaethom nodi dull agored o gasglu adborth ond gwelsom fod angen gwella'r broses o asesu risg mewn perthynas â gwiriadau cyn cyflogi nad oeddent wedi'u cynnal ar gyfer aelodau o staff a fu'n gweithio yn y practis ers amser hir. Gwelsom hefyd fod angen gwneud gwelliannau mewn perthynas ag archwiliadau rhagnodi gwrthfotigau a gweithdrefn gwyno'r practis.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Cynnal ymarfer datblygu tîm, fel y rhai hynny a ddarperir gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)
- Asesu'r risg sy'n gysylltiedig â'r diffyg gwybodaeth cyn cyflogi ar gyfer aelodau o staff a fu'n gweithio yn y practis ers amser hir.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Staff cyfeillgar, gwybodus a brwdfrydig
- Tystiolaeth dda bod gan y staff hyder yn arweinwyr y practis
- Hyfforddiant a chymwysterau perthnasol ac uwchlaw'r lefelau gorfodol
- Dull agored o gasglu adborth.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith yn [Atodiad B](#).

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan Gleifion

Ar y cyfan, roedd yr ymatebion a gafwyd i holiadur cleifion AGIC yn gadarnhaol. Dywedodd pob un o'r 32 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn fod y gwasanaeth yn 'dda iawn' (27/32) neu'n 'dda' (4/31).

Roedd rhai o'r sylwadau a gafwyd gan y cleifion yn yr holiaduron yn cynnwys y canlynol:

“Gwasanaeth cwsmeriaid gwych, maen nhw'n mynd gam ymhellach i ddiwallu fy anghenion bob tro.”

“Rwyf wedi bod yn dod i Morgan Street ers dros 20 mlynedd ac rwyf bob amser yn hapus iawn gyda'r gwasanaeth cyfeillgar a'r wybodaeth rwy'n ei chael. Mae'r ddeintyddfa sydd newydd ei hadnewyddu yn welliant mawr hefyd.”

“Gofal ac arbenigedd ardderchog yn ystod fy nhriniaeth.”

“Mae'r staff yn gyfeillgar iawn, yn barod eu cymwynas, yn dangos dealltwriaeth ac yn mynd gam ymhellach”

Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn

Hybu Iechyd

Gwelsom fod gwybodaeth ar gael i gleifion ynglŷn â hybu iechyd y geg, symptomau cyflyrau deintyddol cyffredin a gofal deintyddol pediatrig. Gwnaethom nodi bod y mwyafrif o'r wybodaeth i gleifion ar gael yn ddwyieithog ac mewn fformatau arall, ar gais. Roedd rhestrau prisiau ar gyfer gwasanaethau deintyddol y GIG a gwasanaethau deintyddol preifat yn cael eu harddangos ym mhob rhan o'r practis. Gwelsom fod yr oriau agor, codau moeseg y Cyngor Deintyddol Cyffredinol, rhifau cyswllt mewn argyfwng ac enwau'r clinigwyr ochr yn ochr â'u rhifau cofrestru â Chyngor Deintyddol Cyffredinol, yn cael eu harddangos.

Roedd pawb a ymatebodd i holiadur cleifion AGIC yn cytuno bod y staff wedi esbonio eu hiechyd y geg iddynt mewn modd y gallent ei ddeall drwy gydol eu

hapwyntiad. Roedd pob un o'r cleifion yn cytuno eu bod wedi cael cyfarwyddiadau ôl-ofal addas ar sut i gynnal iechyd da yn y geg.

Gofal Urddasol a Pharchus

Gwelsom fod y cleifion yn cael eu trin ag urddas a pharch. Gwelsom fod trefniadau addas ar waith i ddiogelu preifatrwydd y cleifion, gan gynnwys manau ar wahân lle gallai'r cleifion gael sgysiau preifat â'r staff. Gwelsom ffenestri a drysau barugog a oedd yn cael eu cadw ar gau yn ystod triniaethau er mwyn diogelu preifatrwydd y cleifion.

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC eu bod yn teimlo bod y staff yn gwrando arnynt yn ystod eu hapwyntiad a bod y staff yn eu trin ag urddas a pharch.

Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn

Dywedodd pob un o'r ymatebwyr i holiadur AGIC eu bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall risgiau a manteision yr opsiynau triniaeth a oedd ar gael iddynt. Roedd pob un o'r cleifion yn cytuno eu bod yn teimlo eu bod wedi cael eu cynnwys cymaint ag yr oeddent am gael eu cynnwys yn y penderfyniadau am eu triniaeth.

Roedd y rhan fwyaf o'r cleifion (29/32) yn cytuno eu bod wedi cael canllawiau clir ar yr hyn y dylent ei wneud mewn argyfwng. Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr (27/32) yn cytuno eu bod wedi cael gwybodaeth am sut y byddai'r practis yn datrys unrhyw bryderon neu gwynion ar ôl triniaeth.

Gwelsom fod prosesau cynllunio triniaethau ac opsiynau triniaeth wedi'u cofnodi yn y sampl o gofnodion cleifion a welsom. Roedd hyn yn golygu bod y cleifion wedi cael gwybodaeth i'w galluogi i wneud penderfyniad gwybodus am eu triniaeth.

Amserol

Gofal Amserol

Gwelsom fod system briodol ar waith ar gyfer rheoli apwyntiadau cleifion er mwyn sicrhau eu bod yn cael gofal amserol.

Gwelsom fod system trefnu apwyntiadau dros y ffôn ar waith, a dywedodd y staff wrthym y byddai system trefnu apwyntiadau ar-lein yn cael ei rhoi ar waith yn y dyfodol agos. Cadarnhaodd y staff fod apwyntiadau yn cael eu trefnu'n unol ag anghenion cleifion ac argaeledd lle bynnag y bo'n bosibl.

Dyweddod y staff wrthym fod amseroedd aros yn amrywio rhwng ymarferwyr, ond gallai cleifion fel arfer gael apwyntiad cyffredin o fewn wythnos pe bai angen. Dywedwyd wrthym fod apwyntiadau brys yn cael eu brysennu dros y ffôn ac y byddai unrhyw gleifion brys yn cael eu gweld o fewn 24 awr. Cadarnhaodd y staff eu bod yn cadw slotiau yn y dyddiadur dyddiol yn wag ar gyfer apwyntiadau brys.

Dyweddod y rhan fwyaf o'r cleifion wrthym eu bod wedi ei chael hi'n hawdd iawn (18/32) neu'n eithaf hawdd (14/32) cael apwyntiad pan oedd angen un arnynt. Gwelsom fod gwybodaeth am wasanaethau deintyddol y tu allan i oriau yn cael ei harddangos yn addas y tu allan i'r practis ac ar wefan y practis. Dywedodd y mwyafrif o'r ymatebwyr (25/31) i holiadur cleifion AGIC y byddent yn gwybod sut i gael gafael ar wasanaethau deintyddol y tu allan i oriau pe bai ganddynt broblem ddeintyddol frys.

Teg

Cyfathrebu ac iaith

Gwelsom dystiolaeth bod y 'Cynnig Rhagweithiol' yn cael ei ddarparu'n briodol yn y practis. Gwelsom fod arwyddion a gwybodaeth ddwyieithog ar gael i'r cleifion a bod y staff sy'n siarad Cymraeg yn gwisgo bathodynau iaith Gwaith. Dywedwyd wrthym y gallai cleifion gael triniaethau'n gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg. Dywedodd y staff wrthym hefyd fod hyfforddiant Cymraeg ar gael ac y gellid gwneud cais amdano drwy'r bwrdd iechyd.

Dyweddwyd wrthym y gallai cleifion nad Saesneg oedd eu hiaith gyntaf gyfathrebu â'r staff drwy'r Llinell Iaith neu adnoddau cyfieithu ar-lein. Dywedodd y staff eu bod wedi defnyddio adnoddau cyfieithu ar-lein yn ddiweddar wrth drin ffoaduriaid o Wcráin.

Cadarnhaodd yr ymatebwyr i holiadur cleifion AGIC eu bod yn teimlo'n gyfforddus wrth ddefnyddio'r Gymraeg, eu bod yn cael cyfle i siarad yr iaith, a bod gwybodaeth gofal iechyd ar gael yn eu dewis iaith.

Hawliau a Chydraddoldeb

Gwelsom fod trefniadau boddhaol ar waith i hyrwyddo a diogelu hawliau'r cleifion. Gwelsom bolisi cydraddoldeb ac amrywiaeth cynhwysfawr i gefnogi hawliau a chydraddoldeb y staff a'r cleifion. Roedd wedi'i ategu gan bolisi bwlio ac aflonyddu ac roedd gweithdrefnau ar waith ar gyfer ymateb i gleifion treisgar neu ymosodol. Roedd y polisiau hyn yn nodi'r prif ddeintydd fel y cyswllt arweiniol y dylid rhoi gwybod iddo am unrhyw bryderon ynghylch aflonyddu neu wahaniaethu.

Gwelsom dystiolaeth bod y staff yn cefnogi hawliau a chydaddoldeb cleifion unigol. Gwelsom hefyd enghreifftiau o addasiadau rhesymol a oedd ar waith ar gyfer staff y practis a pholisi mynediad a derbyn cleifion.

Dyweddodd y staff wrthym fod dewis rhagenwau cleifion trawsryweddol yn cael eu nodi ar y system cofnodion cleifion.

Dyweddodd pob un o'r cleifion a ymatebodd i holiadur AGIC wrthym nad oeddent wedi wynebu unrhyw fath o wahaniaethu wrth ddefnyddio'r gwasanaeth hwn. Nododd y mwyafrif o'r cleifion (25/31) fod yr adeilad yn hygyrch, ac roedd rhai o'r cleifion (4/31) yn ansicr neu'n teimlo bod y practis yn rhannol hygyrch (2/31).

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Rheoli Risg

Yn ôl yr hyn a welsom, roedd y practis yn lân ac yn daclus ar y cyfan, ac roedd mewn cyflwr da, yn fewnol ac yn allanol. Roedd ardaloedd aros mawr a phump deintyddfa yn y practis, yr oedd un ohonynt wedi'i lleoli ar lawr gwaelod yr adeilad. Roedd pob rhan o'r practis yn cynnwys digon o gyfarpar ac yn addas at y diben.

Gwelsom fod y gwres a'r goleuadau wedi'u gosod ar lefel foddhaol, a bod y practis yn cael ei awyru'n briodol. Clywsom y llinellau ffôn yn gweithio'n effeithiol a gwelsom ardaloedd newid addas ar gyfer y staff.

Roedd y toiledau yn lân ac yn cynnwys cyfleusterau golchi a sychu dwylo addas, ac roedd arwyddion i gyfeirio'r cleifion iddynt. Gwelsom fod mynediad gwastad i'r practis a bod y coridorau mewnol a'r ddeintyddfa ar y llawr gwaelod yn hygyrch. Fodd bynnag, nid oedd y toiled ar y llawr gwaelod yn cynnwys unrhyw gymhorthion i'r cleifion hynny ag anabledau. Dywedodd y staff wrthym fod y cleifion yn defnyddio toiled cyhoeddus cyfagos i bobl anabl. Yn ôl yr hyn a welsom, nid oedd unrhyw wybodaeth ar gael i'r cleifion ynglŷn â hyn.

Dylai'r practis sicrhau bod y Datganiad o Ddiben a'r Daflen Wybodaeth i Gleifion yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am argaeledd toiledau i bobl anabl a mynediad iddynt.

Gwelsom fod y cyfarpar deintyddol ym mhob un o'r pump deintyddfa yn gweithio ac mewn cyflwr da. Gwelsom fod nifer digonol o eitemau aml dro i allu eu dihalogi'n effeithiol ar ôl eu defnyddio, a bod eitemau untro ar gael a bod dyfeisiau offer miniog nwy diogel yn cael eu defnyddio.

Gwnaethom nodi polisiâu ac asesiadau risg cynhwysfawr er mwyn cefnogi iechyd a diogelwch y staff a'r cleifion Gwelsom fod tystysgrif yswiriant atebolrwydd cyflogwr a phoster gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn cael eu harddangos. Gwelsom gynllun parhad busnes a chynllun wrth gefn brys cynhwysfawr a boddhaol, a oedd wedi'u llunio i sicrhau bod gwasanaethau yn cael eu darparu'n effeithiol mewn argyfwng. Gwnaethom nodi hefyd fod polisi boddhaol ar waith ar gyfer cynnal a chadw'r adeilad.

Roedd arwyddion diogelwch tân a dim smygu i'w gweld yn glir ym mhob rhan o'r practis. Gwelsom fod asesiad risg tân manwl ar waith ac wrth edrych ar gofnodion y practis, gwnaethom nodi'r canlynol:

- Bod profion larymau tân a gwiriadau diogelwch tân yn cael eu cwblhau bob wythnos
- Bod ymarferion tân yn cael eu cynnal bob chwe mis
- Bod rhagofalon tân ac asesiad risg tân yn cael eu cwblhau bob blwyddyn
- Bod y goleuadau argyfwng a'r cyfarpar tân yn cael eu gwasanaethu bob blwyddyn drwy gontract cynnal a chadw.
- Bod profion trydanol yn cael eu cynnal fel mater o drefn, ac y cawsant eu cynnal ddiwethaf ym mis Mai 2023.

Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi

Roedd polisïau a gweithdrefnau rheoli heintiau priodol ar waith. Roedd amserlenni glanhau ar waith ac yn cael eu cwblhau'n briodol er mwyn sicrhau bod y practis yn cael ei lanhau'n rheolaidd ac yn effeithiol. Roedd Cyfarpar Diogelu Personol digonol ar gael i'r staff er mwyn gallu gofalu am gleifion unigol. Roedd trefniadau ac arwyddion hylendid dwylo priodol ar waith yn y practis. Gwelsom fod yr holl gyfarpar a'r amgylchedd yn cael eu cynnal a'u cadw'n foddhaol fel bod modd eu glanhau a'u dihalogi'n effeithiol.

Dywedodd pob un o'r cleifion a ymatebodd i holiadur AGIC eu bod yn teimlo bod y practis yn lân iawn (31/32) neu'n eithaf glân (1/32). Nododd pob un o'r ymatebwyr fod mesurau atal a rheoli heintiau yn cael eu dilyn yn briodol.

Gwelsom fod trefniadau cynhwysfawr ar waith i sicrhau bod cyfarpar aml dro yn cael ei ddihalogi a'i sterileiddio'n gywir. Gwnaethom edrych ar y cofnodion o'r gwiriadau ar gylchredau'r peiriant awtoclaf ac amserlen o waith cynnal a chadw rheolaidd. Gwnaethom nodi bod argraffiadau yn cael eu diheintio'n ddiogel gan ddefnyddio bath.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn deall eu cyfrifoldebau unigol mewn perthynas â mesurau rheoli a gwnaethant gadarnhau eu bod wedi cael hyfforddiant priodol yn eu rolau. Cadarnhaodd y cofnodion hyfforddiant y gwnaethom edrych arnynt fod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant priodol ar ddihalogi'r cyfarpar yn gywir.

Gwelsom dystiolaeth bod y broses ar gyfer Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) yn cael ei rheoli'n addas a bod asesiad risg wedi'i gwblhau, a gwnaethom nodi ffolder COSHH gynhwysfawr. Gwelsom fod holl wastraff y practis yn cael ei waredu drwy gontract gwaredu gwastraff addas. Fodd bynnag, roedd y bagiau a oedd yn aros i gael eu gwaredu wedi'u pentyrru ar ben ei gilydd yng nghoridor un

o'r ystafelloedd storio ac nid oeddent yn cael eu storio mewn biniau gwastraff clinigol.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff gwastraff clinigol ei storio'n briodol.

Gwelsom fod yr ystafell storio benodol hon yn anniben yn gyffredinol, a bod eitemau tafladwy yn cael eu storio y tu hwnt i'w dyddiad defnyddio. Roedd bocsys o gyfarpar yn cael eu storio ar y llawr yn hytrach nag ar y silffoedd a gwelsom focsys wedi'u pentyrru'n wael a allai beri risg i'r staff.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod holl ardaloedd storio'r practis yn lân ac yn drefnus.

Rheoli Meddyginiaethau

Gwelsom fod trefniadau a systemau priodol a diogel ar waith ar gyfer rheoli meddyginiaethau. Er nad oedd y staff yn rhoi meddyginiaethau fel mater o drefn, heblaw mewn argyfwng, roedd gweithdrefnau priodol ar waith i sicrhau bod meddyginiaethau yn cael eu storio, eu rhoi a'u dosbarthu'n ddiogel ac yn effeithiol.

Wrth edrych ar gofnodion y cleifion, gwelsom fod unrhyw feddyginiaethau a roddir yn cael eu cofnodi'n glir, a bod yr ymarferwyr yn rhoi gwybodaeth glir i'r cleifion. Roedd yr hyn a ddywedodd y cleifion wrthym yn ategu hyn.

Gwelsom fod trefniadau cynhwysfawr ar waith i sicrhau bod argyfyngau meddygol yn cael eu rheoli'n ddiogel ac yn effeithiol. Roedd cofnodion y staff yn dangos eu bod yn meddu ar gymwysterau addas ym maes dadebru cardio-anadlol a chymorth cyntaf. Wrth edrych ar y cyfarpar brys, gwelsom fod yr holl eitemau yn bresennol, yn hawdd cael gafael arnynt ac o fewn eu dyddiadau defnyddio. Gwnaethom nodi bod gwiriadau wythnosol yn cael eu cynnal ar yr holl gyfarpar brys. Gwelsom hefyd fod y padiau presgripsiwn yn cael eu storio'n ddiogel fel sy'n briodol.

Diogelu Plant ac Oedolion

Gwelsom fod polisiâu a gweithdrefnau priodol a chyfredol ar waith i hybu a diogelu lles a diogelwch plant ac oedolion, a oedd yn cynnwys manylion cyswllt gwasanaethau cymorth lleol. Roedd y polisi yn cynnwys Gweithdrefnau Diogelu Cymru ac yn nodi arweinydd diogelu dynodedig. Gwelsom fod pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant addas ar ddiogelu plant ac oedolion.

Rheoli Dyfeisiau a Chyfarpar Meddygol

Gwelsom fod y cyfarpar clinigol yn ddiogel ac mewn cyflwr da. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn hyderus o ran defnyddio'r cyfarpar, ac roedd y

cofnodion hyfforddiant y gwnaethom edrych arnynt yn cadarnhau eu bod wedi cael hyfforddiant addas ar gyfer eu rolau.

Gwelsom enghreifftiau o arfer da mewn perthynas â rheoli triniaethau radiograffig. Roedd y cofnodion y gwnaethom edrych arnynt yn dangos y canlynol:

- Bod y nodiadau clinigol ar gyfer triniaethau radiograffig wedi'u cwblhau'n llawn
- Bod y ffolder diogelu rhag ymbelydredd yn gyflawn ac wedi cael ei diweddarau'n ddiweddar
- Bod y rheolau lleol yn gynhwysfawr, yn hawdd cael gafael arnynt ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd
- Bod gwiriadau sicrhau ansawdd ac archwiliadau graddio radiograffig yn cael eu cynnal fel mater o drefn
- Bod pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ar radiograffeg i lefel addas.

Effeithiol

Gofal Effeithiol

Gwelsom fod y staff yn asesu cleifion ac yn gwneud diagnosis yn ddiogel. Roedd cofnodion y cleifion yn dangos bod triniaethau'n cael eu darparu'n unol ag anghenion clinigol a chan gydymffurfio â chanllawiau proffesiynol, rheoliadol a statudol.

Dangosodd y staff clinigol y gwnaethom siarad â nhw ddealltwriaeth glir o'u cyfrifoldebau ac roeddent hefyd yn gwybod ble i gael gafael ar gyngor proffesiynol perthnasol pe bai angen.

Gwelsom ddefnydd priodol o restrau gwirio clinigol fel y Safonau Diogelwch Lleol ar gyfer Triniaethau Mewnwithiol.

Cofnodion Cleifion

Gwnaethom edrych ar gofnodion 10 claf a gwelsom fod y cofnodion clinigol yn cael eu cadw i safon briodol. Dywedwyd wrthym fod 20,000 o gofnodion papur wedi cael eu sganio i'r system cofnodion cleifion yn ddiweddar a bod y practis bellach wedi'i ddigideiddio'n llwyr ac yn storio cofnodion yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data. Gwelsom hefyd fod polisi rheoli cofnodion boddhaol ar waith.

Roedd y mwyafrif o'r cofnodion cleifion y gwnaethom edrych arnynt yn gyfredol ac yn gyflawn. Fodd bynnag, gwelsom dystiolaeth nad oedd y practis wedi olrhain

atgyfeiriadau ar gyfer rhai o'r cleifion, a oedd yn golygu bod risg na fyddent yn cael y gofal yr oedd ei angen arnynt gan rannau eraill o'r gwasanaeth iechyd.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff atgyfeiriadau cleifion eu holrhain mewn modd amserol.

Gwelsom hefyd nad oedd dewis iaith y cleifion nac unrhyw gamau a gymerwyd mewn ymateb i'r dewis hwn wedi cael eu cofnodi.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff anghenion iaith a chyfathrebu cleifion eu cofnodi.

Cadarnhaodd y cleifion a ymatebodd i holiadur AGIC fod eu hanes meddygol yn cael ei wirio cyn unrhyw apwyntiad. Roedd pob un o'r cleifion yn cytuno eu bod wedi rhoi cydsyniad ar sail gwybodaeth a bod eu triniaethau wedi cael eu hesbonio iddynt mewn ffordd y gallent ei deall. Roedd y dystiolaeth a welsom yng nghofnodion y cleifion yn ategu hyn.

Effeithlon

Effeithlon

Gwelsom fod y clinigwyr yn darparu gwasanaeth boddhaol i ddiwallu anghenion eu cleifion ar safle addas. Gwelsom fod y cleifion yn symud ymlaen yn effeithlon drwy lwybrau triniaeth â hylenwyr a therapyddion. Gwelsom fod yr apwyntiadau hyn yn cael eu defnyddio'n effeithiol o ganlyniad i gymysgedd priodol o sgiliau a phroses trefnu apwyntiadau a brysbennu gadarn.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac Arweinyddiaeth

Gwelsom fod strwythur rheoli clir ar waith a oedd yn helpu i sicrhau bod y practis yn rhedeg yn effeithiol. Roedd cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal yn rheolaidd ac roedd pob aelod o'r staff yn eu mynychu, ac wrth edrych ar gofnodion y cyfarfodydd, gwelsom drafodaethau am iechyd a diogelwch yn ogystal â diogelwch tân, adborth gan gleifion, hyfforddiant ac archwiliadau'r bwrdd iechyd lleol.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn frwdfrydig, yn wybodus ac yn cefnogi ei gilydd. Dywedodd y staff wrthym fod ganddynt hyder yn y rheolwyr, a dywedodd y deintydd arwain a pherchennog y practis ei fod wedi cael y cymorth a'r hyfforddiant cywir i gyflawni ei rôl arwain yn effeithiol.

Gwelsom fod y practis wedi ymgymryd â Chynllun Arferion Da Cymdeithas Ddeintyddol Prydain tua saith mlynedd yn ôl ond nad oedd wedi cynnal unrhyw weithgareddau datblygu tîm yn ddiweddar, fel y rheini sydd ar gael drwy Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC). Gallai hyn effeithio ar gydb berthnasau gwaith y staff a phrosesau rhannu gwybodaeth, a allai effeithio ar ofal y cleifion.

Dylai'r rheolwr cofrestredig ymgymryd ag ymarfer datblygu tîm, gan ddefnyddio'r cymorth sydd ar gael iddo.

Roedd y polisiâu a'r cofnodion y gwnaethom edrych arnynt yn cynnwys dyddiadau adolygu clir, ac roeddent yn cael eu diweddarau'n rheolaidd. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn cael diweddariadau drwy eu bwrdd iechyd lleol, ac roedd y cofnodion polisi yn cadarnhau hyn. Gwelsom gyfathrebu da wedi'i gofnodi yng nghofnodion y cyfarfodydd staff ynglŷn ag unrhyw newidiadau i bolisiâu.

Y Gweithlu

Gweithlu Medrus a Galluog

Gwelsom gydb berthnasau gwaith da ac amgylchedd gweithio cadarnhaol yn y practis. Roedd system briodol ar waith i sicrhau bod nifer addas o staff cymwysedig yn gweithio ar unrhyw adeg benodol.

Gwnaethom edrych ar gofnodion pump o'r 18 o aelodau o staff, a gwelsom fod yr holl gofrestriadau proffesiynol yn cael eu cynnal yn briodol. Roedd systemau addas ar waith i sicrhau bod cofnodion y staff yn cael eu diweddarau'n barhaus a bod

gwiriadau cyn cyflogi priodol wedi cael eu cynnal. Fodd bynnag, yn y cofnodion y gwnaethom edrych arnynt, gwelsom mai dim ond un gwiriad geirda oedd yn ffeil un aelod o'r staff, ac nad oedd unrhyw wiriadau geirda yn ffeil aelod arall o'r staff. Roedd y ddau aelod hyn o'r staff wedi bod yn gweithio yn y practis ers amser hir a gwelsom fod ffeiliau pob aelod o'r staff a benodwyd yn ddiweddar yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi sicrwydd i AGIC o'r camau sydd ar waith i liniaru'r risg mewn perthynas â'r cofnodion o wiriadau cyn cyflogi sydd ar goll.

O ran cofnodion y pum aelod o staff y gwnaethom edrych arnynt, gwelsom fod hyfforddiant staff gorfodol wedi'i gwblhau i'r safon ofynnol a dywedodd y staff wrthym eu bod yn cael eu hannog i fanteisio ar gyfleoedd dysgu a datblygu. Gwelsom arferion da ym mhob un o'r cofnodion y gwnaethom edrych arnynt lle roedd y staff wedi cwblhau hyfforddiant perthnasol ac wedi ennill cymwysterau y tu hwnt i'r gofynion gorfodol.

Gwelsom fod polisi chwythu'r chwiban boddhaol a chyfredol ar waith. Roedd trafodaethau datblygu personol cyfredol wedi'u dogfennu'n gynhwysfawr yng nghofnodion pob aelod o'r staff y gwnaethom edrych arnynt.

Diwylliant

Ymgysylltu â Phobl, Adborth a Dysgu

Gwelsom ddull agored o gasglu adborth, a oedd yn canolbwyntio ar broffesiynoldeb a pharch at safbwyntiau'r cleifion. Dywedodd y staff wrthym fod y cleifion a, lle y bo'n briodol, eu gofawr yn cael eu hannog i roi adborth gan ddefnyddio blwch awgrymiadau yn yr ardaloedd aros.

Wrth edrych ar y cofnodlyfr adborth anffurfiol yn y dderbynfa, gwelsom nad oedd unrhyw themâu cyffredin ac mai ychydig o gwynion a gafwyd. Roedd cofnodion y practis yn dangos bod adborth yn cael ei drafod a bod camau priodol yn cael eu cymryd yn ôl yr angen. Dywedwyd wrthym y byddai unrhyw adborth yr oedd angen ymateb iddo yn cael ei rannu â'r cleifion drwy hysbysfwrdd yn y dderbynfa.

Gwelsom fod gweithdrefn gwyno gadarn ar waith a oedd yn gwbl gyson â Gweithio i Wella. Roedd y weithdrefn gwyno hon a'r polisi cyfatebol, ynghyd ag enw cyswllt y gallai'r cleifion gysylltu ag ef, i'w gweld yn y dderbynfa. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod angen diweddarau'r manylion a oedd wedi'u darparu ar gyfer y gwasanaeth eirioli dros gleifion newydd, Llais.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff y weithdrefn gwyno ei diweddarau'n barhaus.

Gwnaethom edrych ar sampl o gwynion, yr aethpwyd i'r afael â nhw o fewn yr amserlenni y cytunwyd arnynt ac yr ymdriniwyd â nhw mewn modd proffesiynol, ac nid oedd unrhyw themâu cyffredin. Gwnaethom nodi rhai cwynion a oedd, yn ôl y staff, yn flinderus ac yn gysylltiedig yn ôl pob golwg â nifer o adolygiadau ar-lein yr oedd y practis wedi'u cael yn ddiweddar. Gwnaethom edrych ar yr ymchwiliad i'r cwynion hyn a gwelsom ei fod yn briodol. Nid oedd ein canfyddiadau ar ddiwrnod ein harolygiad yn cefnogi'r honiadau a wnaed yn y cwynion ychwaith.

Gwelsom bolisi manwl ar gyfer y Ddyletswydd Gonestrwydd ac esboniodd y staff eu rôl fel rhan o'r Ddyletswydd yn briodol. Esboniodd y staff hefyd eu bod wedi cael hyfforddiant ar y Ddyletswydd Gonestrwydd a oedd ar gael drwy'r bwrdd iechyd ac y byddai aelodau eraill o'r tîm yn cwblhau'r hyfforddiant hwn yn ystod y tri mis nesaf.

Dysgu, Gwella ac Ymchwil

Gweithgareddau Gwella Ansawdd

Gwelsom fod polisi addas ar waith ar gyfer rheoli gweithgareddau gwella ansawdd. Gwelsom fod archwiliadau yn cael eu cynnal mewn perthynas ag ansawdd triniaethau radiograffig, rhoi'r gorau i smygu, cofnodion cleifion ac adolygu cymheiriaid. Roedd archwiliadau ychwanegol hefyd yn cael eu cynnal ar fynediad i bobl anabl a chyfarpar diogelu personol. Ni welsom dystiolaeth o archwiliad rhagnodi gwrthfotigau cyfredol. Fodd bynnag, dywedodd y staff wrthym y byddai hyn yn cael ei gynnal yn ystod y chwe mis nesaf.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gynnal archwiliad rhagnodi gwrthfotigau, fel yr archwiliadau sydd ar gael drwy AaGIC.

Dull Systemau Cyfan

Gweithio mewn Partneriaeth a Datblygu

Amlinellodd y staff gydberthnasau gwaith da â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill yn y feddygfa leol ac, yn benodol, yn y fferyllfa leol. Esboniodd y prif ddeintydd system a ailgyflwynwyd yn ddiweddar ar gyfer atgyfeirio cleifion at y fferyllfa leol am gymorth a chyngor ar roi'r gorau i smygu.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn			

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Practis Deintyddol Morgan Street

Dyddiad yr arolygiad: 29 Tachwedd 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn					

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Practis Deintyddol Morgan Street

Dyddiad yr arolygiad: 29 Tachwedd 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Nid oedd y toiled ar y llawr gwaelod yn cynnwys unrhyw gymhorthion i'r cleifion hynny ag anableddau. Dywedodd y staff wrthym fod y cleifion yn defnyddio toiled cyhoeddus cyfagos i bobl anabl. Yn ôl yr hyn a welsom, nid oedd unrhyw wybodaeth ar gael i'r cleifion ynglŷn â hyn.	Dylai'r practis sicrhau bod y Datganiad o Ddiben a'r Daflen Wybodaeth i Gleifion yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am argaeledd toiledau i bobl anabl a mynediad iddynt.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Adran 6	Diweddarau'r 'Daflen Wybodaeth i Gleifion' a'r 'Datganiad o Ddiben' er mwyn cynnwys gwybodaeth berthnasol ynglŷn â lleoliad toiled i bobl anabl cyfagos y gall y cleifion ei ddefnyddio. Mae'r toiled agosaf i bobl anabl wedi'i leoli yn y brif orsaf bysiau gyfagos ym Mhontypridd, sy'n agos iawn at Bractis Deintyddol Morgan	Grant Phillips	Mae'r taflenni gwybodaeth a'r hysbysfyrddau wedi cael eu diweddarau er mwyn cynnwys y wybodaeth berthnasol. Bydd y cymhorthion ar gael erbyn diwedd mis Chwefror 2024.

			Street. Rydym yn bwriadu gosod cymhorthion yn y toiled presennol ar lawr gwaelod y practis.		
Roedd y bagiau gwastraff clinigol a oedd yn aros i gael eu gwaredu wedi'u pentyrru ar ben ei gilydd yng nghoridor un o'r ystafelloedd storio ac nid oeddent yn cael eu storio mewn biniau gwastraff clinigol.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff gwastraff clinigol ei storio'n briodol.	Adran 22 (2) (a)	Prynwyd biniau gwastraff clinigol y gellir eu cloi ar olwynion ac maent bellach wedi cael eu gosod y tu ôl i'r eiddo.	Grant Phillips	Wedi'i gwblhau
Gwelsom fod un o'r ystafelloedd storio yn anniben yn gyffredinol, a bod eitemau tafladwy yn cael eu storio y tu hwnt i'w dyddiad defnyddio. Roedd bocsys o gyfarpar yn cael eu storio ar y llawr yn hytrach nag ar y	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod holl ardaloedd storio'r practis yn lân ac yn drefnus.	Adran 22 (2) (a)	Caiff dyddiad defnyddio pob eitem dafladwy ei wirio cyn gynted â phosibl ac os bydd y dyddiad defnyddio wedi mynd heibio, caiff yr eitem honno ei gwaredu. Caiff yr holl eitemau eu storio ar y silffoedd	Grant Phillips	Wedi'i gwblhau

<p>silffoedd a gwelsom focsys wedi'u pentyrru'n wael a allai beri risg i'r staff.</p>			<p>a'u tacluso er mwyn dileu'r risgiau i'r staff.</p>		
<p>Gwelsom dystiolaeth nad oedd y practis wedi olrhain atgyfeiriadau ar gyfer rhai o'r cleifion, a oedd yn golygu bod risg na fyddent yn cael y gofal yr oedd ei angen arnynt gan rannau eraill o'r gwasanaeth iechyd.</p>	<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff atgyfeiriadau cleifion eu holrhain mewn modd amserol.</p>	<p>Adran 13 (1)</p>	<p>Byddwn yn olrhain pob atgyfeiriad cyn gynted â phosibl. Byddwn yn rhoi llyfr nodiadau atgyfeiriadau i bob deintydd er mwyn sicrhau y gellir gwirio statws atgyfeiriadau yn rheolaidd gan ddefnyddio adnodd olrhain ar-lein Cymru gyfan.</p>	<p>Grant Phillips</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p>
<p>Gwelsom nad oedd dewis iaith y cleifion nac unrhyw gamau a gymerwyd mewn ymateb i'r dewis hwn wedi cael eu cofnodi.</p>	<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff anghenion iaith a chyfathrebu cleifion eu cofnodi.</p>	<p>Adran 13 (1)</p>	<p>Byddwn yn parchu dewis iaith cleifion. Caiff hysbysiad ei osod yn y dderbynfa yn atgoffa'r cleifion i ofyn am eu dewis iaith yn ystod ymgynghoriadau. Caiff y dewis iaith hwn</p>	<p>Grant Phillips</p>	<p>Parhaus</p>

			ei gofnodi yn nodiadau'r cleifion.		
Gwelsom nad oedd y practis wedi cynnal unrhyw weithgareddau datblygu tîm yn ddiweddar.	Dylai'r rheolwr cofrestredig ymgymryd ag ymarfer datblygu tîm, gan ddefnyddio'r cymorth sydd ar gael iddo.	Adran 16 (1) (a)	Bydd y practis yn ymgynghori ag AaGIC ynglŷn â chwblhau adnodd datblygu tîm SOSET.	Grant Phillips	Gorffennaf 2024
Gwelsom mai dim ond un gwiriad geirda oedd yn ffeil un aelod o'r staff, ac nad oedd unrhyw wiriadau geirda yn ffeil aelod arall o'r staff. Roedd y ddau aelod hyn o'r staff wedi bod yn gweithio yn y practis ers amser hir a gwelsom fod ffeiliau pob aelod o'r staff a benodwyd yn ddiweddar yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi sicrwydd i AGIC o'r camau sydd ar waith i liniaru'r risg mewn perthynas â'r cofnodion o wiriadau cyn cyflogi sydd ar goll.	Adran 18	Mae'r staff sydd wedi bod yn gweithio yn y practis ers amser hir bellach wedi cwblhau ffurflen datganiad yn nodi eu bod yn unigolyn y gellir ymddiried ynddynt ac nad oes unrhyw resymau pam na ddylent gael eu cyflogi yn eu rolau dynodedig ym Mhractis Deintyddol Morgan Street.	Grant Phillips	Wedi'i gwblhau

Gwnaethom nodi bod angen diweddarau'r manylion a oedd wedi'u darparu ar gyfer y gwasanaeth eirioli dros gleifion newydd, Llais.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff y weithdrefn gwyno ei diweddarau'n barhaus.	Adran 8 (6)	Mae'r polisi cwynion bellach wedi'i ddiweddarau.	Grant Phillips	Wedi'i gwblhau
Ni welsom dystiolaeth o archwiliad rhagnodi gwrthfotigau cyfredol.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gynnal archwiliad rhagnodi gwrthfotigau, fel yr archwiliadau sydd ar gael drwy AaGIC.	Adran 16 (1) (a)	Cysylltwyd ag AaGIC a bydd pob deintydd yn cymryd rhan mewn archwiliad gwrthfotigau newydd.	Grant Phillips	Diwedd Ebrill 2024.

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Grant Phillips

Teitl swydd: Perchennog/Deintydd

Dyddiad: 21/01/2024